

## Deallusrwydd Artiffisial a synwryddion monitro parhaus ar gyfer cymorth i wneud penderfyniadau o ran rheoli da byw

### Crynodeb

Nod y prosiect ymchwil hwn yw datblygu dyfeisiau monitro gofal iechyd anifeiliaid yn barhaus ac mewn amser real a dadansoddeg data yn seiliedig ar ddeallusrwydd artiffisial ar gyfer cymorth i wneud penderfyniadau i reoli clefydau endemig, iechyd, llesiant, a rheoli ffrwythlondeb mewn da byw fferm.

Gwneir hyn drwy astudiaethau dichonolrwydd cychwynnol ar y cyd rhwng Prifysgolion Abertawe, Aberystwyth a Lerpwl.



“ Mae'r dechnoleg newydd hon yn cyflwyno'r potensial i wella monitro afiechydon ymhlith da byw yn radical. ”

**Dr Joe Neary, Gwyddonydd milfeddygol a ffermwr**

### Buddion

- Cydweithfa rhwng Abertawe, Aberystwyth a Lerpwl
- Wedi adnabod rhanddeiliaid, ac ymgysylltu â nhw
- Wedi datblygu cynigion ymchwil UKRI ar y cyd rhwng y Prifysgolion a phartneriaid
- Astudiaethau rhagarweiniol yn canolbwyntio ar leoliad anatomegol delfrydol ar gyfer synwryddion

Mae offer diagnostig croen anifeiliaid yn cael eu datblygu ar gyfer monitro gwartheg godro. Gellir ymestyn ymhellach yr arloesiad hwn i anifeiliaid eraill, megis gwartheg eidion a defaid.

### Defnyddiau ychwanegol/camau nesaf

Datblygu dyfeisiau monitro gofal iechyd anifeiliaid yn barhaus ac mewn amser real a dadansoddeg data yn seiliedig ar ddeallusrwydd artiffisial i fonitro llesiant, clefydau endemig a rheoli ffrwythlondeb mewn da byw fferm.

#### Authors:

Sanjiv Sharma<sup>1</sup>, Paul Rees<sup>1</sup>, Owen Guy<sup>1</sup>, Jon Moorby<sup>2</sup>, Ruth Wonfor<sup>2</sup>, Manod Williams<sup>2</sup>, Joe Neary<sup>3</sup>, Rob Smith<sup>3</sup>

<sup>1</sup>Prifysgol Abertawe

<sup>2</sup>Prifysgol Aberystwyth

<sup>3</sup>Prifysgol Lerpwl

#### Grŵp y prosiect

